**Jayne Bryant AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai**
**Cabinet Secretary for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/JB/2425/25

At:
Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yng Nghymru
Heddluoedd Cymru

Copïau at:
Prif Swyddogion Cyllid Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, Cymru
Prif Gwnstabliaid Heddluoedd yng Nghymru
Prif Swyddogion Cyllid Heddluoedd yng Nghymru

18 Rhagfyr 2025

Annwyl Gomisiynwyr,

**Setliad Dros Dro yr Heddlu 2026-27**

Yn dilyn y cyhoeddiad heddiw gan y Swyddfa Gartref ynghylch ei Setliad Dros Dro ar gyfer Plismona yng Nghymru a Lloegr, rwyf yn ysgrifennu i ddarparu manylion am elfen Llywodraeth Cymru o Setliad Dros Dro yr Heddlu i heddluoedd yng Nghymru ar gyfer 2026-27.

Er fy mod yn cydnabod y pwysau ar wasanaethau a chostau'r heddlu, rwyf hefyd yn ymwybodol o'r pwysau costau byw a wynebir gan lawer o bobl. Mae'r cynnydd cyffredinol yn Setliad yr Heddlu yn uwch na disgwyliad y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol o chwyddiant mynegai prisiau defnyddwyr o 2.5% ar gyfer 2026. Rwy'n eich annog i sicrhau bod cynnydd yn y praeseptau yn adlewyrchu hyn ac yn gynnydd y gall aelwydydd sydd o dan bwysau ymdopi ag ef.

Mae **Atodiad A** yn cynnwys manylion ynghylch cyfraniad Llywodraeth Cymru at y Setliad Dros Dro ar gyfer pob heddlu yng Nghymru.

Mae cyhoeddiad y Swyddfa Gartref yn darparu gwybodaeth am gyfanswm y cyllid ar gyfer pob heddlu: https://questions-statements.parliament.uk/written-statements/detail/2025-12-18/hcws1216.

Mae'r cyfnod o ymgynghori ffurfiol ar y swm a'r dosbarthiad yn dechrau heddiw ac yn dod i ben ar 14 Ionawr 2026. Dylid anfon ymatebion at:

Rhiannon Jones, LGFPSettlement@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jayne.Bryant@llyw.cymru
Correspondence.Jayne.Bryant@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gwahoddir sylwadau am yr effeithiau (boed yn gadarnhaol neu'n niweidiol) y byddai'r setliad arfaethedig yn eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Yn ogystal, rydym yn gwahodd sylwadau ar b'un a ellid llunio'r setliad arfaethedig, neu ei ddiwygio, er mwyn cael effeithiau cadarnhaol, neu lai o effeithiau niweidiol, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae'n bosibl y caiff copïau o ymatebion eu rhoi yn llyfrgell Llywodraeth Cymru. Os ydych yn dymuno i'ch sylwadau aros yn gyfrinachol, dylech nodi hyn yn glir yn eich ymateb. Caiff hyn ei ystyried gan gydnabod ein rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried pob ymateb sy'n dod i law erbyn y dyddiad cau cyn gwneud y penderfyniad terfynol a'i gyhoeddi.

Atgoffir Comisiynwyr Heddlu a Throseddu o'r gofyniad i gydymffurfio â'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, a'r dyletswyddau cydraddoldeb penodol hefyd lle y bônt yn berthnasol. Dylid asesu effaith yr opsiynau cyllidebol ar gydraddoldeb a dylai hyn lywio unrhyw benderfyniadau terfynol.

Byddaf yn ystyried yr holl ymatebion cyn gwneud penderfyniad terfynol a chyhoeddi Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 2) 2026-27 (Comisiynwyr Heddlu a Throseddu). Bwriedir cynnal y ddadl ar yr adroddiad hwn yn y Senedd ym mis Ionawr 2026.

Yn gywir



**Jayne Bryant AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai
Cabinet Secretary for Housing and Local Government

## Atodiad A: Setliad Dros Dro'r Heddlu ar gyfer Cymru, 2026-27: Cyfraniad Llywodraeth Cymru

**Tabl 1: Asesiad o Wariant Safonol (£m)**

| | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 | 2026-27 |
|---|---|---|---|---|---|
| Dyfed-Powys | 33.90 | 34.37 | 34.94 | 35.43 | 35.93 |
| Gwent | 50.55 | 51.24 | 52.00 | 52.72 | 53.47 |
| Gogledd Cymru | 48.85 | 49.53 | 50.39 | 51.11 | 51.84 |
| De Cymru | 117.83 | 119.42 | 120.77 | 122.45 | 124.17 |
| Cyfanswm | 251.12 | 254.56 | 258.09 | 261.71 | 265.41 |

**Tabl 2: Cyllid Allanol Cyfun (RSG+NNDR, £m)**

| | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 | 2026-27 |
|---|---|---|---|---|---|
| Dyfed-Powys | 8.67 | 8.49 | 8.41 | 8.10 | 8.02 |
| Gwent | 25.94 | 26.07 | 26.20 | 26.31 | 26.46 |
| Gogledd Cymru | 16.51 | 16.33 | 16.36 | 16.10 | 15.92 |
| De Cymru | 62.35 | 62.58 | 62.50 | 62.96 | 63.06 |
| Cyfanswm | 113.47 | 113.47 | 113.47 | 113.47 | 113.47 |